YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

Tymor y Hydref 2021 — Dosbarth Blwyddyn 3

# EIN BWRDD




## 'BANT A NI I GYNLLUNIO'

*'Hoffwn i ddarganfod sawl siop sydd ym Mrynmill.'*

*Adda*

*'Hoffwn i wybod am yr anifeiliaid sy'n byw ym mharc Brynmill'*

*Sophia*

*'Hoffwn i ddysgu am hanes ysgol Bryn-Y-Môr.'*

*Osian*

*'Hoffwn i fynd am dro o amgylch Brynmill.'*

*Milena*

*'Hoffwn i wybod pa ieithoedd mae pobl cymunded Brynmill yn siarad.'*

*Martha*

*'Hoffwn i ddysgu faint o bobl sy'n byw ym Mrynmill.'*

*Rhys*

YSGOL GYMRAEG

CADW IAITH CADW GWLAD

BRYN Y MÔR

# Tymor y Hydref 2021 – Dosbarth Blwyddyn 3

## Bwrlwm Brynmill!

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

### Y Celfyddydau Mynegiannol

- Mwynhau sesiynau cerddoriaeth wythnosol gydag athro arbenigol
- Astudio gwaith artistiaid lleol, gan ganolbwyntio ar dirluniau o'r ardal
- Mwynhau datblygu ein sgiliau darlunio a phrintio i greu efelychiadau o waith artist lleol
- Creu cyflwyniadau a ffilmiau byrion o bob math
- Mwynhau canu ystod o ganeuon yn ymwneud â gwaith y dosbarth.

### Iechyd a Lles

- Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.
- Mwynhau profiadau newydd yn yr awyr agored yn ystod sesiynau Ysgol Goedwig.
- Trafod rheolau'r ysgol a thrafod sut i fod yn ddinasyddion cyfrifol.
- Deall ein rol a'n cyfrifoldebau o fewn cymuned Brynmill.
- Trafod ein teimladau a sut y dylid trin eraill
- Gwneud penderfyniadau ynglyn â'n gwaith, fel unigolyn ac fel aelod o grŵp.

### Y Dyniaethau

- Dysgu am ein **cynefin** ac am hanes yr ysgol.
- Cymharu bywyd ysgol heddiw â' bywyd ysgol yn y gorffennol.
- Dysgu am hanes a datblygiad parc Brynmill
- Trafod ac astudio ardal Brynmill – astudio'r mathau o adeiladau, busnesau, y bobl a'u cartrefi.
- Datblygu ein sgiliau mapio.
- Dysgu am draddodiadau Nadolig a pham fod y Nadolig yn bwysig i Gristnogion.
- Astudio addoldai'r ardal.
- Archwilio amrywiaeth diwylliannol cymuned Brynmill.

### Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- Defnyddio ystod o offer cyfrifiadurol yn ddiogel.
- Datblygu sgiliau rhoi cyfarwyddiadau i degan rhaglenadwy.
- Astudio'r amrywiaeth o bethau byw sydd i'w gweld ym Mharc Brynmill.
- Dysgu am briodweddau deunyddiau.
- Dylunio, creu a gwerthuso addurn Nadolig.

### Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon a barddoniaeth.
- Datblygu ein sgiliau darllen yn y Gymraeg a Saesneg.
- Mwynhau ysgrifennu mewn pob math o ddulliau gwahanol, gan ganolbwyntio ar ysgrifennu **ffeithiol, mynegi barn a llythyr.**
- Ymarfer ein sgiliau sillafu a pharhau i ddysgu ffurfio llythrennau yn gywir.
- Datblygu ymwybyddiaeth o ieithoedd cymuned Brynmill.
- Dablygu ein sgiliau llafar yn y Gymraeg a Saesneg.

Bydd y gwaith cartref yn cael ei rannu trwy gyfrif Hwb eich plentyn. Gweler y cyfarwyddiadau ar dudalen y dosbarth ar wefan yr ysgol. Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener.

Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener

### Mathemateg a Rhifedd

- Dysgu'r tabl 3 ac ymarfer cyfrif mewn trioedd.
- Darllen a haneru lluosrifau 3 digid o 100.
- Deall a dosrannu rhifau 2 ddigid.
- Cyfrif wrth ddefnyddio graddfeydd.
- Ychwanegu degau a lluosi â 10.
- Dyblu rhifau 2 ddigid.
- Datrys brawddegau rhif rhannu gan ddefnyddio gwrthrychau.